GIG CYMRU NHS WALES | Staff Nyrsio Nurse Staffing

Lefelau Gofal Cymru Wardiau Iechyd Meddwl, Derbyn a Thrin (V3)

working document

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol 3
Cyflwyniad 4
Sut i Ddewis Lefel Briodol o Ofal 5
Y Disgrifiadau Lleyg ..... **Error! Bookmark not defined.**
Y Disgrifiadau Clinigol 9
Y Disgrifiadau Rheoli Risg 11
Disgrifiadau Clinigol Cymorth Emosiynol 11
Disgrifiadau Clinigol Gwybyddiaeth, Cyfathrebu ac Ymgysylltu 12
Disgrifiadau Clinigol Iechyd Corfforol 13
Disgrifiadau Clinigol Gofal Personol 15
Aliniad y Themâu 15
Ffigur 1 – Yn dangos aliniad y thema â'r Lefelau Clinigol Cyfredinol ..... **Error! Bookmark not defined.**
Themâu Technegol ac Arbenigol Ychwanegol 16

Manylion y Ddogfen

Teitl: Lefelau Gofal Cymru - Mawrth 2023
Fersiwn: 3
Dyddiad: 22/03/23

Crynodeb:

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan y ffrwd gwaith cleifion mewnol iechyd meddwl yn rhan o Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan er mwyn darparu offeryn cenedlaethol ar gyfer Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd Cymru i gynorthwyo nyrsys iechyd meddwl mewn wardiau derbyn a thrin i fesur lefel aciwtedd a dibyniaeth cleifion. Bydd yr offeryn yn cynorthwyo nyrsys i wneud penderfyniadau proffesiynol wrth aseinio lefelau gofal yn seiliedig ar angen y claf.

Joanna Doyle
Pennaeth Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan
AaGIC
Joanna.doyle2@wales.nhs.uk

James Robinson
Arweinydd Prosiect Iechyd Meddwl - Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan
AaGIC
James.robinson3@wales.nhs.uk

Working document

Crynodeb Gweithredol

Dyma rifyn cyntaf Lefelau Gofal Cymru i'w defnyddio mewn wardiau Iechyd Meddwl, Derbyn a Thrin. Dros y 3 blynedd diwethaf, mae'r ffrwd gwaith Iechyd Meddwl, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG, wedi bod yn gweithio mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol o bob rhan o GIG Cymru, er mwyn cyd-gynhyrchu'r offeryn hwn. Mae offeryn Lefelau Gofal Cymru'n unigryw i Gymru. Cafodd ei ddylunio a'i brofi gan dimau nyrsio'r rheng flaen, ac argymhellir ei ddefnyddio ym mhob ward Iechyd Meddwl, Derbyn a Thrin ar draws GIG Cymru.

Pwrpas y ddogfen hon yw darparu'r cyngor, yr arweiniad a'r diffiniadau angenrheidiol ar gyfer timau nyrsio i'w galluogi i aseinio lefelau gofal i gleifion unigol mewn ffordd gyson. Mae'r offeryn yn dilyn strwythur penodol ac mae'n cynnwys 5 lefel o aciwtedd sy'n amrywio o; lefel 5 lle mae'r claf yn ansefydlog dros ben ac mewn perygl, sy'n gofyn am lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus ar sail 2:1, i lawr i lefel 1 lle mae'r claf yn gallu rheoli ei anghenion yn annibynnol. O fewn pob lefel, mae yna gyfres o ddisgrifiadau sy'n disgrifio anghenion, anhwylderau a sefyllfaoedd nodweddiadol, a'r asesiadau, yr ymyraethau a'r tasgau clinigol i'w cyflawni gan nyrsys.

Mae timau nyrsio wedi croesawu datblygiad yr offeryn cenedlaethol hwn, ac maent wedi ymrwymo i ddarparu gofal ar sail y claf gyda ffocws ar ddiwallu anghenion holistaidd y claf. Gall offeryn Lefelau Gofal Cymru ddarparu dull cyson o fesur a thystio i aciwtedd a dibyniaeth cleifion unigol a'r baich achosion. Mae'r wybodaeth yma'n hanfodol i lywio penderfyniadau am ddefnydd pob dydd o staff nyrsio ac aelodau o'r tîm amlbroffesiwn er mwyn sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu ac er mwyn llywio gwaith cynllunio lleol a chenedlaethol am y gweithlu. Gall gwybodaeth am aciwtedd cleifion, anghenion cleifion a'r galw roi darlun gwerthfawr sy'n gallu cael ei ddefnyddio i lywio cyflawniad gwasanaethau a sicrhau meincnodi lleol a chenedlaethol.

Wrth i'r drafft gweithio o'r offeryn ddechrau fwrw gwreiddiau, bydd angen ei adolygu a'i werthuso am y bydd yn parhau i ddatblygu ac esblygu.

Er mwyn ategu'r broses o fabwysiadu Lefelau Gofal Cymru, mae tîm y Rhaglen Staff Nyrsio wedi darparu amrywiaeth o ddeunyddiau addysg a hyfforddiant a mecanweithiau ategol ar gyfer timau gweithredol er mwyn eu taclu â'r wybodaeth a'r sgiliau i ddefnyddio'r Lefelau Gofal yn gyson er mwyn mesur a thystiolaethu aciwtedd a dibyniaeth cleifion. Bydd yr Arweinwyr Staff Nyrsio Lleol ym mhob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth GIG, yn gweithio ochr yn ochr â 'hyrwyddwyr' a 'hyfforddwyr' lleol, ac yn darparu arweiniad a chefnogaeth ar gyfer timau gweithredol gan alluogi iddynt ymgorffori'r offeryn i arferion pob dydd a defnyddio'r data a gynhyrchir ar sail yr offeryn i fwydo penderfyniadau lleol.

Mae datblygiad yr offeryn cenedlaethol yma'n dipyn o gamp i grŵp y ffrwd gwaith Iechyd Meddwl ac mae'n destament i ymroddiad a gwaith caled pawb o dan sylw sydd wedi gweithio'n galed i ddatblygu offeryn cenedlaethol a fydd yn helpu i lywio gofal a gwasanaethau diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Working Document

Cyflwyniad

Offeryn cenedlaethol yw Lefelau Gofal Cymru. Fe'i datblygwyd i'w ddefnyddio mewn wardiau sy'n derbyn ac yn trin cleifion iechyd meddwl fel cleifion mewnol yn GIG Cymru er mwyn cynorthwyo staff nyrsio i fesur lefelau aciwtedd a dibyniaeth y cleifion.

Mae Lefelau Gofal Cymru'n cynnwys 5 lefel o aciwtedd sy'n amrywio o: Lefel 1 lle mae'r claf yn annibynnol a lle nad yw prosesau y tu allan i'r ward wedi clustnodi unrhyw anghenion a/neu risgiau; i Lefel 5 lle mae'r claf yn ansefydlog dros ben ac mewn perygl, sy'n gofyn am lefel ddwys o ofal nyrsio parhaus ar sail 2:1.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut y gall nyrsys ddefnyddio offeryn Lefelau Gofal Cymru i aseinio'r lefelau priodol o ofal i gleifion. Mae'r ddogfen yn nodi'r anghenion a risgiau "nodweddiadol" ar bob lefel o ofal. Caiff y disgrifiadau hyn eu torri i lawr yn themâu mwyfwy penodol.

Disgrifiadau Lleyg – sy'n disgrifio cyflwr nodweddiadol y claf a'r mathau o ofal mewn termau syml

Disgrifiadau Cryno – sy'n rhoi crynodeb o'r disgrifiadau clinigol, i'w defnyddio fel canllaw cyflym i droi ato

Disgrifiadau Clinigol – sy'n darparu rhagor o fanylion, gan gynnwys ystyriaethau proffesiynol ar bob lefel

Themâu Nyrsio – sy'n darparu llawer o fanylion technegol am anghenion y claf a'r ymyraethau sy'n angenrheidiol ar bob lefel

Datblygwyd pob set o ddisgrifiadau ar sail archwiliadau manwl a phrosesau iteraidd gydag amrywiaeth eang o staff nyrsio iechyd meddwl ar draws Cymru. Fe'u dyluniwyd fel bod y categorïau'n gyson ar draws y 5 lefel gofal, gan arwain at ddull mwy cyson o briodoli lefel gofal i'r claf.

working document

Sut i Ddewis Lefel Briodol o Ofal

Fel arfer, ac yn achos y rhan fwyaf o gleifion, bydd Disgrifiadau Lleyg yn ddigon i aseinio lefel gofal i glaf. Mae'r Disgrifiadau Lleyg yn eu cyfanrwydd ar dudalen 8, ond gellir eu crynhoi fel a ganlyn, a bydd hyn yn helpu staff nyrsio sy'n defnyddio'r offeryn i gofio.

Lefel 5	**Difrifol a Di-oed** - mae cyflwr meddwl a/neu gorfforol y claf yn **DDIFRIFOL** sy'n golygu bod ar y claf angen sylw nyrsio **PARHAUS** ar sail **O LEIAF DAU I UN** 24 awr y dydd. Mae angen adolygiad ar y claf gan y tîm nyrsio a meddygol **AR UNWAITH**.
Lefel 4	**Gofal Uwch** - Gall cyflwr iechyd meddwl a/neu gorfforol y claf **NEWID YN GYFLYM** a/neu gall fod yna angen/risg cronig sy'n golygu bod ar y claf angen **GOFAL UWCH** **(goruchwyliaeth o leiaf UN I UN ar gyfer y RHAN FWYAF O'R SHIFFT**). Mae ar y claf angen gofal **BRYS** a/neu fewnbwn dyddiol gan y tîm nyrsio a meddygol **DDATBLYGU** ac adolygu'r cynllun gofal / risg **(dyddiol o leiaf)**.
Lefel 3	**Gofal Cymhleth** - Mae cyflwr iechyd meddwl a/neu gorfforol y claf yn **GYMHLETH** sy'n ei gwneud hi'n **ANOS DAROGAN YN GYSON** deilliant unrhyw driniaeth. Yn nodweddiadol, bydd ar y claf angen lefelau **CYMHLETH** ac amrywiol o oruchwyliaeth **(arsylwadau ysbeidiol â chyfnod byr o oruchwyliaeth 1:1 fel rheol).** Yn nodweddiadol, bydd ar y claf angen adolygiadau **YCHWANEGOL** gyda'r MDT
Lefel 2	**Gofal Rheolaidd** - Mae gan y claf anghenion / risgiau y gellir eu **DIFFINIO'N GLIR**. Gellir rheoli mân-amrywiadau mewn anghenion/risgiau **TRWY FÂN-AMRYWIADAU YN Y GOFAL**. Mewnbwn a llwybr **CYFFREDIN** sydd ei angen gan yr MDT.
Lefel 1	**Annibynnol** – Mae'r claf wedi ymadfer neu mae ei anghenion wedi sefydlogi a gellir bodloni'r rhain yn **ANNIBYNNOL**. **PROSESAU Y TU HWNT I'R WARD** byddai'r claf yn rheoli ei anghenion/risgiau ei hun yn **ANNIBYNNOL**.

Os nad yw'r Disgrifiadau Lleyg yn ddigonol i ganiatáu ar gyfer aseinio lefel gofal, gall y nyrs gyfeirio at y disgrifiadau clinigol am arweiniad pellach. Mae yna gyfres o themâu nyrsio a disgrifiadau cysylltiedig. Y themâu yw **Rheoli Risg, Cymorth Emosiynol, Gwybyddiaeth a Chyfathrebu, Gofal Personol ac Iechyd Corfforol** ac maent yn darparu rhagor o fanylion am lefel angen y claf ar ymyraethau sydd eu hangen.

Mae'n bosibl i glaf fod ag anghenion ar wahanol lefelau o ofal ym mhob un o'r themâu nyrsio. Bwriedir y disgrifiadau hyn fel canllaw, ac yn y pendraw, bydd angen i'r nyrs sy'n pennu'r sgôr ddefnyddio barn bersonol i ganfod y disgrifiad o'r lefel gofal sydd fwyaf priodol i'r claf a'u lefel aciwtedd a dibyniaeth. Gall anghenion cleifion newid, a'u lefel gofal hefyd, felly mae angen adolygu eu lefel gofal yn rheolaidd gan ddefnyddio'r offeryn.

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw aciwtedd?

Gellir diffinio actiwtedd fel mesuriad o ddwyster y gofal nyrsio sydd ei angen ar y claf. At ddibenion y gwaith yma, rydyn ni'n defnyddio'r term 'aciwtedd' fel term cyffredinol sy'n cwmpasu termau eraill fel dibyniaeth, dwyster, natur annarogan a chymhlethdod i ddisgrifio faint o ofal sydd ei angen ar y claf yn seiliedig ar eu hanghenion nyrsio holistaidd.

Wrth ystyried aciwtedd, mae yna ddwy brif nodwedd, sef: 'difrifoldeb' sy'n dangos statws corfforol a seicolegol y claf, a 'dwyster' sy'n dangos ei anghenion nyrsio, pa mor gymhleth yw'r gofal sydd ei angen i ofalu am glaf, neu am grŵp o gleifion, a'r baich gwaith cyfatebol.

Pam mae'r ddogfen yn cynnwys cynifer o ddisgrifiadau?

Canllaw i gyfeirio ato yw dogfen Lefelau Gofal Cymru, nid yw'n broses weithredol i'w dilyn o'r dechrau i'r diwedd bob tro wrth asesu claf. Gofynnir i nyrsys wneud penderfyniadau proffesiynol am lefelau aciwtedd eu cleifion, a nod y ddogfen hon yw darparu digon o wybodaeth iddynt allu dilysu'r farn honno.

Mae adborth gan staff wedi dangos y gellir defnyddio'r Disgrifiadau Lleyg i gategoreiddio cleifion mewn ffordd gyson. Defnyddir y Disgrifiadau Clinigol a'r Themâu Nyrsio i ddarparu rhagor o arweiniad i gynorthwyo staff i gategoreiddio eu cleifion.

A oes yna hyfforddiant i gynorthwyo staff i ddefnyddio Lefelau Gofal Cymru?

Lluniwyd llawlyfr a chyflwyniad PowerPoint awtomatig i gynorthwyo staff i ddefnyddio Lefelau Gofal Cymru. Mae'r byrddau iechyd yn cynnal sesiynau lleol gyda rheolwyr wardiau a staff i archwilio sut caiff Lefelau Gofal Cymru eu defnyddio'n ymarferol ac i drafod sut mae eu cleifion 'nodweddiadol' yn cael eu categoreiddio.

Pam fod y lefelau wedi eu rhestru o 1-5?

Mae'r lefelau wedi eu rhestru o'r lefel isaf, sef lefel 1 ar y gwaelod, i'r lefel uchaf, sef lefel 5 ar y top. Mae hyn am y dyluniwyd fformat y lefelau i gyd-fynd â'r dull greddfol o wneud penderfyniadau yn ymarferol ac efelychu'r awgrymiadau cyfeirio ar sail dyfeisiau fel y thermomedr e.e. oer ar waelod y cwmpas a phoeth ar y top. Rydyn ni'n defnyddio'r ddyfais hon wrth gynhyrchu'r ddyfais Delweddu hefyd, sy'n efelychu'r patrwm o 1 ar y gwaelod a 5 ar y top ac sy'n ddyfais bwerus i ddilysu synnwyr y peth.

Beth yw pwrpas y Disgrifiadau Lleyg?

Mae'r Disgrifiadau Lleyg yn defnyddio iaith glir, syml a chyffredin heb dermau technegol i ddisgrifio anghenion y cleifion ar bob lefel o ofal. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu a chywreinio'r disgrifiadau hyn i gynhyrchu amrywiaeth o fersiynau hygyrch o'r naratif yma i'w rhannu ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Rwy'n poeni nad yw adeg casglu'r data'n adlewyrchu'r aciwtedd nodweddiadol ar y ward yn gywir.

Cyfeirir at y dull o gasglu data fel archwiliad ar hap a ddyluniwyd i gofnodi aciwtedd cleifion ar bwynt penodol mewn amser yng nghanol y diwrnod. Mae hi'n debygol y bydd yna achlysuron pan fydd claf ag aciwtedd uwch yn cael ei ddisodli gan glaf ag aciwtedd is toc

working document

cyn cyflawni'r archwiliad, ac i'r gwrthwyneb, ac felly ni fydd yn rhoi gwir ddarlun o aciwtedd y cleifion ar y ward bob tro. Fodd bynnag, wrth ddewis adeg benodol o'r dydd, mae'r tebygolrwydd o'r naill senario a'r llall yn gwastatau, ac felly ni ddylai effeithio'n sylweddol ar y canlyniadau i'w dadansoddi. Mewn geiriau eraill, mae cofnodi data ar adegau penodol yn gwneud iawn am newidiadau annarogan o ran aciwtedd. Er enghraifft, gallai person oedd yn disgwyl cael ei rhyddhau neu glaf oedd ar anterth aciwtedd yn ystod ei gyfnod derbyn fod yn defnyddio'r gwely.

Y ddelfryd fyddai casglu data'n fwy cyson, ac mae yna gynlluniau i symud i gyfeiriad cofnodi sgoriau aciwtedd Cleifion yn barhaus yn y dyfodol. Wrth i'r gwelliannau technolegol sydd ar y gweill ar gyfer y rhaglen gael eu cyflwyno, mae hi'n debygol y bydd yr archwiliad yn newid o gofnodi unwaith y dydd i gofnodi union sgoriau aciwtedd cleifion wrth i'w lefelau aciwtedd newid.

Beth ddylwn i ei wneud os yw'r gwely'n wag neu os bu'n wag toc cyn amser cofnodi'r data?

Wrth gyflawni'r archwiliad o aciwtedd, rhaid priodoli lefel i bob claf sydd dan ofal y ward adeg cyflawni'r archwiliad. Peidiwch ag edrych nôl ac amcangyfrif sgôr ar gyfer y 12 awr blaenorol, am y bydd hynny'n annilysu'r dull a'r dadansoddiad am fod y sgôr yn gysylltiedig â chlaf penodol, nid gwely penodol. Gwely gwag yw gwely gwag. Cydnabyddir na fydd yn bosibl cyflawni'r archwiliad ar bob claf am 3pm yn union.

Sut mae aseinio lefel gofal i glaf sydd angen gofal 1:1 oherwydd lefel ei angen pan fo'r cleifion wedi'u carfanu oherwydd argaeledd adnoddau?

Mae hi'n anochel y bydd yna gleifion â lefelau uwch o aciwtedd (cleifion lefel 4 sydd angen gofal 1:1 am y rhan fwyaf o'r dydd a chleifion lefel 5 sydd angen gofal 2:1 am 24 awr y dydd). Pwrpas yr offeryn yw mesur lefel y gofal sydd ei angen ar gleifion. Os oes angen arsylwi parhaus ar gleifion ac nad ydyn nhw'n derbyn y lefel yma o ofal (e.e. lle bo'r cleifion hyn wedi eu carfanu er mwyn lliniaru'r risg) dylid cofnodi'r cleifion hyn gael fel cleifion lefel 5 neu 4 (yn dibynnu ar yr angen cychwynnol). Dylai'r naratif gweithredol adlewyrchu hyn, a dylid archwilio'r rhesymau am hyn am y gallai'r data olygu y gwelir bod y lefelau staffio'n annigonol o ystyried aciwtedd y cleifion hyn.

Mae hi'n bwysig nodi, mewn achosion lle asesir fod ar gleifion angen gofal 1:1 ac na ellir darparu hynny oherwydd diffyg adnoddau staff, dylid uwchgyfeirio'r mater trwy weithdrefnau adrodd ac uwchgyfeirio lleol y bwrdd iechyd.

Sut mae dosbarthu cleifion sy'n cael eu carfannu?

Trwy 'garfanu' rydyn ni'n golygu dod i farn broffesiynol fod ar glaf neu grŵp o gleifion angen lefel debyg o oruchwyliaeth. Rhaid defnyddio barn broffesiynol wrth benderfynu ar lefelau aciwtedd cleifion, gan gofio y bydd angen rhannu'r gofal nyrsio y byddant yn ei gael rhwng y cleifion o fewn yr ystafell neu'r ardal gymunol o dan sylw.

Esiampl 1: Mewn ystafell â 2 wely lle mae 2 glaf wedi eu carfanu ar yn cael gofal gan 1 aelod o staff am 24 awr. Heb ddefnyddio arsylwi carfannol, byddai angen y lefel yma o oruchwyliaeth ar y cleifion. Felly, câi pob claf ei gategoreiddio fel lefel 4, waeth faint o staff a briodolir.

Esiampl 2: wrth garfanu nifer o gleifion gyda'i gilydd mewn bae nyrsio er mwyn gwella lefel yr oruchwyliaeth sydd ar gael iddynt, nid yw hynny'n golygu bod angen yr un lefel o

Working Document

oruchwyliaeth ar bob un. Gall cleifion wedi eu carfanu fod â gwahanol lefelau o aciwtedd, ac felly byddai'n briodol i'r cleifion hynny gael eu categoreiddio ar wahanol lefelau. Wrth garfanu, rhaid defnyddio barn broffesiynol i bennu lefel gofal y cleifion.

A yw newid rhai o'r disgrifiadau'n golygu nad yw'r offeryn yn gywir mwyach?

Cyflawnwyd gwaith yn ystod gweithdai cenedlaethol lle gwnaed diwygiadau ac ychwanegiadau at y disgrifiadau. Mae'r disgrifiadau a ddatblygwyd trwy bob fersiwn wedi cael eu dilysu trwy brofi Lefelau Gofal Cymru trwy archwiliadau bob chwe mis, hyfforddiant ac adborth staff.

Ydyn ni'n defnyddio lluosyddion i bennu nifer y staff sydd eu hangen?

Rydyn ni'n rhoi proses mwy trylwyr ar waith i fonitro lefelau staffio yn barhaus yn hytrach na dibynnu ar set o luosyddion damcaniaethol. Ffocws y gwaith yw cyfrifo'r lefelau staffio o ran nyrsys gan ddefnyddio dull trionglog, sy'n golygu bod modd ystwytho nifer a chymysgedd sgiliau'r staff sy'n seiliedig ar anghenion y claf ar y pryd.

Sut gallwn ni gofnodi'r amser a dreulir ar y swît Adran 136 neu mewn gwelyau CAMHS?

Hyd yn hyn, mae'r holl waith wedi canolbwyntio ar gleifion mewnol traddodiadol. Fodd bynnag, yn seiliedig ar adborth, rydyn ni'n deall fod timau'r wardiau'n cyflawni amrywiaeth ehangach o lawer o weithgarwch, gan integreiddio gweithgarwch cleifion mewnol traddodiadol ochr yn ochr â rheoli switiau adran 135/136 a gwelyau arbenigol i blant a phobl ifanc.

Pam cymryd ciplun o'r data archwilio?

Ni all unrhyw un o'r offer cyfredol ddisgrifio'r holl alwadau sydd yna ar amser nyrsio. Yr unig ffordd o wneud hynny fyddai cofnodi amseriadau a sgoriau ar gyfer pob claf bob tro y bydd eu haciwtedd yn newid. Yn seiliedig ar aciwtedd, gallwn bwyso a mesur y gyfran o amser penodol ym mhob awr y mae pob claf yn ei dreulio ar bob lefel o aciwtedd, adio'r amser cyfanred, wedyn rhannu hynny â nifer yr oriau, a ddylai ddod â ni at lefel gyfartalog o ofal.

Mae hyn yn gymhleth iawn: nid oes gennym ni'r amser na'r dechnoleg i'w hwyluso, a hyd yn hyn, ni wyddom beth yw union bwysoliad pob lefel. Felly rydyn ni'n defnyddio nifer o dechnegau ystadegol i bwyso a mesur patrymau o weithgarwch (gan gynnwys aciwtedd cleifion, llif cleifion a staff a ddefnyddir) dros amser. Bydd pennu amser sefydlog ar gyfer yr archwiliad pob dydd yn helpu i hwyluso'r dadansoddiad hwn, a thrwy archwiliadau chwe misol, byddwn ni'n parhau i ddatblygu sylfaen gadarn o dystiolaeth i gynorthwyo effeithiolrwydd penderfyniadau amser real.

Sut gallwn ni gofnodi aciwtedd mewn ardaloedd â thrwygyrch uchel?

Cydnabyddir fod y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gwblhau'r archwiliad o aciwtedd yn fwyaf priodol ar gyfer model traddodiadol o weithgarwch cleifion mewnol. Mae hyn yn golygu nad yw gweithgarwch ar y ward sydd â chyfraddau trosiant a thrwygyrch cyflymach o lawer yn cael ei gofnodi'n fanwl gywir.

working document

Y Disgrifiadau Lleyg

Mae'r disgrifiadau lleyg yn darparu gwybodaeth am nodweddion cyffredinol claf ar bob lefel o ofal.

Lefel 5 **Difrifol a Di-oed**	Bydd angen cymorth parhaus dau neu ragor o aelodau o'r tîm nyrsio yn ystod y dydd a/neu'r nos er mwyn sicrhau eich bod chi ac eraill yn ddiogel ac yn cael cymorth.
Lefel 4 **Gofal Uwch**	Byddwn ni'n cynyddu ein lefelau cymorth i fodloni eich anghenion iechyd corfforol a meddwl dybryd. Cewch eich cynorthwyo gan aelod o'r tîm nyrsio am y rhan fwyaf o'r dydd / nos
Lefel 3 **Gofal Cymhleth**	Efallai bod gennych anghenion iechyd meddwch a chorfforol sydd angen cymorth gan aelod o'r tîm gofal. Gallai eich angen newid yn aml, a byddwn ni'n newid ein lefelau cymorth i fodloni eich anghenion.
Lefel 2 **Gofal Cyffredin**	Mae yna ddealltwriaeth glir o'ch anghenion yn ac mae gennym gynllun cymeradwy o ran sut i fodloni'r rhain. Mae'n bosibl y bydd angen ambell i newid a byddwn ni'n cytuno ar y rhain gyda'n gilydd. Efallai y bydd yna amser pan fydd angen cymorth y tîm nyrsio arnoch.
Lefel 1 **Annibynnol**	Rydych chi neu eich perthynas yn gwella, ac mae'ch anhwylder yn sefydlog. Gall y person fodloni ei anghenion ei hun. Mae'r person yn barod i gael ei ryddhau o'r ward.

working document

Y Disgrifiadau Clinigol

Yng nghyd-destun Lefelau Gofal Cymru, mae'r "disgrifiadau clinigol" yn cwmpasu pob elfen o'r anghenion a'r strategaethau rheoli risg sy'n dylanwadu ar aciwtedd cyffredinol y claf. Mae "disgrifiadau clinigol" yn cyfuno rheoli risg, anghenion iechyd meddwl, gwybyddiaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu, iechyd corfforol, gofynion gofal y person a lefelau arsylwi seiciatrig.

Lefel 5 **Gofal Difrifol a Di-oed**	• Risg **DYBRYD** o niwed **DIFRIFOL** i'w hun a/neu eraill, a/neu'r amgylchedd, sy'n gofyn am o leiaf **2 AELOD O STAFF** i arsylwi a darparu cymorth **PARHAUS** • Angen **YMYRRAETH** nyrsys a meddygon **AR UNWAITH** er mwyn atal **GWAETHYGU DIFRIFOL** • Mae'r claf yn **ANSEFYDLOG IAWN** ac yn annarogan. Rhaid i nyrsys ystyried ei drosglwyddo i amgylchedd mwy addas er mwyn bodloni anghenion **DIFRIFOL** y claf a/neu liniaru'r risgiau.
Lefel 4 **Gofal Uwch**	• Mae'r claf mewn perygl uwch o achosi niwed i'w hun a/neu bobl eraill, a/neu'r amgylchedd, sy'n gofyn am arsylwi parhaus **UN I UN AM Y RHAN FWYAF O'R SHIFFT** • Mae anghenion a risgiau'r claf yn annarogan a gallant **NEWID YN GYFLYM.** Mae angen adolygiad gan y tîm nyrsio a meddygol **AR UNWAITH (o leiaf yn ddyddiol)** • Mae'r claf yn debygol o fod angen cymorth nyrsio **UWCH** (**3 i 4 o staff**) ar gyfer ymyraethau cynlluniedig a heb eu cynllunio (**gofal personol / ataliol**)
Lefel 3 **Gofal Cymhleth**	• Mae gan y claf anghenion a risgiau **CYMHLETH** a allai fod yn **ANODD EU DAROGAN MEWN FFORDD GYSON.** O ganlyniad, gall fod ar y claf angen **CYMORTH YCHWANEGOL (gan gynnwys cyfnodau mwy cyson o amser 1-1)** ac arsylwi gan staff nyrsio • Mae gan y claf **ANGHENION CYFNEWIDIOL** a/neu gydafiecheddau sy'n effeithio ar ei gyflwr, a gallai hyn effeithio ar ei gydymffurfiaeth â'r cynllun triniaeth. Oherwydd hyn, mae angen cyflawni **ADOLYGIADAU CYSON** o'r cynllun gofal a **GWAITH INTEGREDIG** gan yr MDT • Mae'r claf yn debygol o fod angen cymorth nyrsio **YCHWANEGOL** (**2-3 aelod o staff**) ar gyfer ymyraethau cynlluniedig a heb eu cynllunio • Rhaid tywys y claf yn ystod unrhyw amser oddi ar y ward, a byddai angen i'r tîm gydbwyso'r manteision therapiwtig a'r risgiau bob tro.
Lefel 2 **Gofal Rheolaidd**	• Mae anghenion y claf yn **HAWDD EU DAROGAN** a'u **RHEOLI** gydag **AMRYWIADAU BYCHAIN YN Y GOFAL** • Mae anghenion a risgiau'r claf wedi eu **DIFFINIO'N GLIR** ac mae angen **ARSYLWI CYFFREDIN GYDA RHYWFAINT O AMRYWIAD** pan fo mân-amrywiadau yn y risg • Gall fod angen **1 AELOD** o'r tîm nyrsio i helpu gyda rhai agweddau ar weithgareddau bywyd pob dydd, a chyfnodau oddi ar y ward dan oruchwyliaeth. Neu, yn rhan o broses ymadfer y claf, gellir defnyddio cyfnodau oddi ar y ward heb oruchwyliaeth
Lefel 1 **Annibynnol**	• Mae'r claf yn **SEFYDLOG** • Mae'r claf yn gallu gofalu am ei anghenion a'i risgiau ei hun **YN ANNIBYNNOL** • **PROSESAU ODDI AR Y WARD** nid oes unrhyw anghenion nyrsio gan y claf ac mae modd ei gynorthwyo yn y gymuned • Gall y claf fanteisio ar gyfnodau estynedig o amser heb oruchwyliaeth oddi ar y ward

Working document

Y Disgrifiadau Rheoli Risg

Yng nghyd-destun Lefelau Gofal Cymru, mae'r thema "Rheoli Risg" yn canolbwyntio ar reoli risgiau a allai arwain at niwed i'r claf neu i eraill yn y fan a'r lle. Mae hyn yn gyson â'r gofynion ar gyfer cadw pobl o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2017. Wrth ddefnyddio pob un o'r themâu, mae hi'n hanfodol neilltuo'r risgiau / anghenion o dan bob thema, ac ystyried y gofynion nyrsio wrth reoli neu fynd i'r angen a'r anghenion hynny.

Lefel 5 **Gofal Difrifol a Di-oed**	• Mae'r claf yn dangos un risg neu nifer o risgiau sy'n **ANSEFYDLOG IAWN** sy'n cael effaith **DDIFRIFOL** ar ddiogelwch y claf neu bobl eraill. • Dim ond gydag **O LEIAF 2 AELOD O STAFF** yn darparu arsylwadau a chymorth **PARHAUS** y gellir rheoli risg y claf. Mae'r risg yn debygol o fod yn annarogan, neu'n risg y gellir ei ddarogan sy'n gofyn am reolaeth **DDWYS** **(e.e. cynllunio i roi depot)** • Mae'n debygol y bydd ar y claf angen cyfnodau **DWYS** o ataliaeth gorfforol a/neu feddygol er mwyn rheoli a/neu leihau'r risgiau **(gan gynnwys ynysu /neilltuo)** • Mae angen adolygiad nyrsio neu feddyg o gynllun rheoli risg y claf yn **DDI-OED**. Gallai timau ystyried trosglwyddo'r claf i amgylchedd mwy priodol
Lefel 4 **Gofal Uwch**	• Mae'r claf yn risg i'w hunan a/neu i bobl eraill y gellir ei reoli fel rheol gyda chymorth **UWCH** gan **1 AELOD O STAFF** ar gyfer y **RHAN FWYAF** o'r shifft • Mae ar y claf angen cyfnodau ysbeidiol iawn o ataliaeth gorfforol a/neu feddygol er mwyn rheoli a/neu leihau'r risgiau **(dylai hyn fod yn is na lefel angen Lefel 5)** • Er enghraifft, ar adegau, gallai'r claf ymddangos yn gaotig, yn llawn cynnwrf neu gythryblus iawn gyda lefelau annarogan neu gronig o risg sy'n gofyn am gymorth **UWCH** • Mae cynllun rheoli risg y claf yn gofyn am adolygiadau nyrsio neu feddygol **UWCH (o leiaf dyddiol)** .
Lefel 3 **Gofal Cymhleth**	• Mae risgiau'r claf yn **ANODD EU DAROGAN MEWN FFORDD YN GYSON** a gallant amrywio yn ystod y shifft. Gall fod angen dwysau a/neu lacio ysbeidiol ar y rhain. Gallai'r claf fod mewn perygl heb **FONITRO YCHWANEGOL** **(arsylwadau ysbeidiol / amser 1-1 mwy cyson fel rheol)** • Gall claf ddangos patrymau daroganadwy o risg sy'n cael eu rheoli trwy **GYMORTH YCHWANEGOL** **(arsylwadau ysbeidiol / cyfnodau byr o amser 1-1 fel rheol)** yn gyson â'r cynllun gofal a'r asesiad risg • Mae angen adolygiad nyrsio neu feddygol **YCHWANEGOL** **(o leiaf ddwywaith yr wythnos)** ar gynllun rheoli risg y claf
Lefel 2 **Gofal Rheolaidd**	• Mae gan y claf risgiau sydd wedi eu **DIFFINIO'N GLIR** y gellir eu **DAROGAN** ac y gellir eu rheoli ar y cyfan **GYDA MÂN-AMRYWIADAU** • Mae ar y claf angen arsylwadau **CYFFREDIN** **(bob awr ar y cyfan)** • Mae sesiynau 1-1 yn **GYFFREDINOL** • Mae cynllun rheoli risg y claf yn cael ei adolygu **FEL MATER O DREFN** **(Wythnosol)** • Gall amrywiadau yn y risg gynnwys bod yn ymosodol ar lafar, mân achosion o hunan-niwed, hunan-amddifadedd, ond nid oes unrhyw ymddygiad corfforol ymosodol
Lefel 1 **Annibynnol**	• Nid oes **UNRHYW RISGIAU WEDI EU CLUSTNODI** ar gyfer y claf, neu mae risgiau hanesyddol yn **SEFYDLOG** • Mae'r claf yn gallu rheoli ei risgiau yn **ANNIBYNNOL** • **PROSESAU Y TU ALLAN I'R WARD** NID OES angen unrhyw reolaeth nyrsio neu feddygol ar y claf i reoli risgiau • Gall y claf elwa ar gyfnodau estynedig o amser heb oruchwyliaeth oddi ar y ward

Disgrifiadau Clinigol Cymorth Emosiynol

Working document

Yng nghyd-destun Lefel Gofal Cymru, mae'r thema "Cymorth Emosiynol" yn canolbwyntio ar y cymorth sydd ei angen ar unrhyw glaf o ran anghenion seicolegol. Wrth ystyried yr angen yma, yn ddi-os bydd yna rywfaint o orgyffwrdd â "rheoli risg" am y gall angen seicolegol droi'n risg weithredol. Fodd bynnag, lle bo modd, cynghorir gwahanu anghenion seicolegol oddi wrth risg trwy ystyried graddfa'r ymyraethau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r anghenion seicolegol.

Lefel 5 **Gofal Difrifol a Di-oed**	• Mae iechyd meddwl y claf yn **DDIFRIFOL** yn **ANSEFYDLOG**, ac yn annarogan (e.e. mania, deliriwm, cythryblus iawn, hynod o seicotig) sy'n galw am arsylwi o leiaf **UN I UN** am **Y RHAN FWYAF O'R SHIFFT** • Mae ymddygiad y claf yn peri perygl **DIFRIFOL** i eraill. Mae angen cymorth **DI-OED, PARHAUS** a **DWYS** er mwyn amddiffyn y claf (arsylwi **FESUL UN** am y **RHAN FWYAF O'R SHIFFT)**
Lefel 4 **Gofal Uwch**	• Mae'r claf yn **DDIFRIFOL WAEL** (e.e. mania, deliriwm, cythryblus iawn, hynod o seicotig) sy'n galw am **GYMORTH UWCH** (e.e. arsylwi ysbeidiol / **cyfnodau ESTYNEDIG** o amser 1-1 yn ystod y shifft) • Mae ymddygiad y claf yn gallu bod yn gaotig, yn ddiymatal, yn aflonyddgar neu mae'r claf mewn trallod emosiynol a/neu'n esgeuluso'i hun. Gall hyn ei wneud yn fregus. Angen cyfnodau estynedig o amser 1-1. • Mae ar y claf angen adolygiadau (sawl gwaith yr wythnos) gan yr MDT
Lefel 3 **Gofal Cymhleth**	• Mae cyflwr meddyliol y claf yn **GYMHLETH** a gall **AMRYWIO**. Mae hyn yn effeithio ar ei ymddygiad, anghenion a'i gydymffurfiaeth â'r cynllun trin. Oherwydd hyn, mae angen adolygiadau **YCHWANEGOL** gyda **GWAITH INTEGREDIG** gan yr MDT (hyd at ddwywaith yr wythnos) • Mae cyflwr meddyliol y claf yn gwella, ond mae'r claf yn dal i fod mewn perygl, a gallai ddangos **CYFNODAU O ANSEFYDLOGRWYDD**. Mae angen monitro ac adolygu **YCHWANEGOL** a chefnogaeth **YCHWANEGOL** (gan gynnwys **cyfnodau mwy cyson** o amser 1-1 yn ystod y shifft)
Lefel 2 **Gofal Rheolaidd**	• Mae'r anghenion wedi eu **DIFFINIO'N GLIR**. Mae'r mewnbwn nyrsio yn **GYFFREDINOL,** ac felly hefyd mewnbwn yr MDT • Mae'r gofal a'r driniaeth yn **DDAROGANADWY** ac mae'r anghenion yn cael eu rheoli gyda **MAN-AMRYWIADAU MEWN YN Y GOFAL** • Mae cyflwr meddyliol y claf yn dychwelyd i waelodlin sy'n **DDAROGANADWY**, felly cyflawnir arsylwadau bob awr fel **MATER O DREFN.**
Lefel 1 **Annibynnol**	• Ni chlustnodwyd unrhyw broblemau iechyd seiciatrig a/neu mae'r claf wedi ymadfer. • **PROSESAU Y TU ALLAN I'R WARD** mae cyflwr meddyliol y claf yn **SEFYDLOG** ac nid oes angen gofal arno fel claf mewnol mwyach • Mae'r claf yn gallu rheoli ei anghenion yn **ANNIBYNNOL**

Working Document

Disgrifiadau Clinigol Gwybyddiaeth, Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Yng nghyd-destun Lefelau Gofal Cymru, mae'r thema "Gwybyddiaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu" yn canolbwyntio ar allu'r claf i weithio gyda'r tîm nyrsio. Mae'r thema hon yn adlewyrchu'r gofynion am fwy o amser nyrsio pan fo claf yn dioddef o broblemau gwybyddol ac o bosibl cyfathrebu, sy'n effeithio ar ei allu a/neu barodrwydd i ymgysylltu â phob elfen ar ei ofal neu elfennau penodol ohono.

Lefel 5 **Difrifol a Di-oed**	• Mae gan y claf namau gwybyddol **DIFRIFOL**, sy'n golygu bod angen YMYRRAETH YN Y FAN A'R LLE • Mae gweithrediad gwybyddol y claf yn **ANSEFYDLOG DROS BEN** oherwydd **GWAETHYGIAD DIFRIFOL** yn ei iechyd corfforol a/neu iechyd meddwl O ganlyniad, mae ar y claf angen **YMYRAETHAU PARHAUS** a **DWYS** • Ni all y claf gyfleu ei anghenion ei hun mewn ffordd ddibynadwy. Mae ar y claf angen **ARSYLWI FESUL UN** ar sail **BARHAUS**.
Lefel 4 **Gofal Uwch**	• Gyda **CHYMORTH UWCH,** mae'r claf yn aml yn gallu gwneud dewisiadau syml mewn perthynas â'i ofal pob dydd gyda chymorth dwys i ddiwallu ei anghenion sylfaenol. • Nid oes gan y claf ddirnadaeth o'i anghenion a risgiau, sy'n gofyn am gyfnodau o **GYMORTH UWCH** • Mae gallu'r claf i gyfleu ei anghenion wedi ei gyfaddawdu oherwydd amrywiaeth o anhwylderau iechyd meddwl a all ofyn am **GYFNODAU CYSON O AMSER 1-1** • Mae anghenion y claf yn **NEWID YN GYFLYM** oherwydd salwch sy'n effeithio dros dro ar ei allu i gyfathrebu a deall ei anghenion. Mae angen ADOLYGIADAU brys gan dimau nyrsio a/neu feddygol.
Lefel 3 **Gofal Cymhleth**	• Mae gan y claf lefelau CYMHLETH o namau gwybyddol a lefelau is o ddealltwriaeth sy'n gofyn am GYMORTH YCHWANEGOL (gan gynnwys cyfnodau o amser 1-1) • Mae gallu'r claf i chwarae rhan wrth ddiwallu ei anghenion gofal yn ANODD EI DDAROGAN MEWN FFORDD GYSON, a allai effeithio ar ei allu i gyrchu triniaeth • Mae gan y claf anghenion cyfathrebu CYMHLETH oherwydd anhwylderau corfforol neu iechyd meddwl sy'n galw am WAITH INTEGREDIG AC ADOLYGIADAU RHEOLAIDD gan dimau nyrsio a/neu feddygol.
Lefel 2 **Gofal Rheolaidd**	• Mae yna adegau pan gall dirnadaeth y claf amrywio, ond gellir rheoli hyn trwy **FÂN-AMRYWIADAU YN EI OFAL** • Mae anghenion cyfathrebu'r claf wedi eu **DIFFINIO'N GLIR**, gall fod angen cymhorthion synhwyraidd a/neu gyfieithu er mwyn gwella cyfathrebu
Lefel 1 **Annibynnol**	• Mae'r claf yn gallu ymgysylltu â thriniaeth a chymorth • Mae'r claf yn gallu cyfleu ei anghenion yn **ANNIBYNNOL** ac yn effeithiol

Working Document

Disgrifiadau Clinigol Iechyd Meddwl

Yng nghyd-destun Lefelau Gofal Cymru, mae'r thema "Iechyd Corfforol" yn canolbwyntio ar

Lefel 5 **Difrifol a Di-oed**	• Mae anghenion iechyd corfforol y claf yn **ANSEFYDLOG**, ac mae'n bosibl y bydd angen ei drosglwyddo i amgylchedd mwy priodol **AR UNWAITH** er mwyn osgoi unrhyw niwed **DIFRIFOL** • Mae ar y claf angen ymyrraeth **YN Y FAN A'R LLE** ac arsylwi **PARHAUS**, ac mae angen cyflawni ymchwiliadau o fewn cwmpas yr arferion iechyd meddwl er mwyn osgoi gwaethygiad **DIFRIFOL** yn eu hiechyd meddwl
Lefel 4 **Gofal Uwch**	• Mae ar y claf angen cymorth ac ymchwiliadau **UWCH (cyfnodau cyson o amser 1-1)** (e.e. NEWS mwy na than 4 gwaith y dydd, arsylwadau niwro bob awr, defnyddio nebiwleiddiwr) i reoli **SALWCH ACIWT** • Mae gan y claf gynllun gofal **UWCH** ac amrywiaeth o ymyraethau dwys sy'n gofyn am uwchgyfeirio (dyddiol) **UWCH** i dimau arbenigol. • Gall anghenion iechyd corfforol y claf **NEWID YN GYFLYM** ac maent yn cael eu rheoli trwy gymorth ac ymyraethau uwch **(cyfnodau rheolaidd o amser 1-1)**.
Lefel 3 **Gofal Cymhleth**	• Mae ar y claf angen monitro ac ymchwiliadau **CYMHLETH** (e.e. NEWS 3-4 gwaith y dydd, arsylwadau niwro bob 2 awr, defnydd o anadlydd PRN). • Mae'r claf yn dioddef o anhwylderau iechyd corfforol **CYMHLETH**. Gallai'r claf fod mewn perygl o **AMRYWIADAU** yn ei anhwylderau sy'n gallu bod yn **ANODD EU DAROGAN MEWN FFORDD GYSON** • Mae'r claf yn gofyn am **WAITH INTEGREDIG,** monitro, ac adolygu gan y timau arbenigol
Lefel 2 **Gofal Rheolaidd**	• Mae'r claf yn dioddef o nifer o anhwylderau iechyd corfforol sy'n sefydlog ar y cyfan gydag amrywiadau **DAROGANADWY** y gellir eu **RHEOLI GYDA MÂN-AMRYWIADAU YN EI OFAL** • Mae anghenion iechyd corfforol y claf wedi eu **DIFFINIO'N GLIR**, sy'n galw am ymyraethau **CYFFREDIN** i reoli ei anghenion. • Mae gan y claf gynllun gofal **CYFFREDIN** sy'n gofyn am adolygiad achlysurol gan y tîm (e.e. diabetes sydd dan reolaeth dda)
Lefel 1 **Annibynnol**	• Mae anhwylderau iechyd corfforol y claf yn **SEFYDLOG** • **PROSESAU Y TU ALLAN I'R WARD** gellir rheoli anghenion y claf **YN ANNIBYNNOL**

Working document

Disgrifiadau Clinigol Gofal Personol

Yng nghyd-destun Lefelau Gofal Cymru, mae'r thema "Gofal Personol" yn canolbwyntio ar allu'r claf i gyflawni ei weithgareddau bywyd pob dydd.

Lefel 5 **Difrifol a Di-oed**	• Mae ar y claf angen cymorth o leiaf 4 aelod o'r tîm nyrsio i gyflawni'r rhan fwyaf o'i weithgareddau bywyd pob dydd. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn golygu 4 aelod o staff yn darparu cymorth ffisegol i ymolchi, gwisgo a mynd i'r tŷ bach er mwyn caniatáu i'r claf fodloni ei anghenion
Lefel 4 **Uwch**	• Mae ar y claf angen cymorth o leiaf 3 aelod o'r tîm nyrsio i gyflawni'r rhan fwyaf o'i weithgareddau bywyd pob dydd. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn golygu 3 aelod o staff yn darparu cymorth ffisegol i ymolchi, gwisgo a mynd i'r tŷ bach er mwyn caniatáu i'r claf fodloni ei anghenion • Mae'r claf mewn perygl o ddioddef diffyg maeth a dadhydradu sy'n gofyn am gyfnodau o ymyrraeth nyrsio ddwys (e.e. hylifau bob awr, risg uchel o allsugnad, dysffasia) i leihau'r risgiau
Lefel 3 **Cymhleth**	• Mae ar y claf angen cymorth o leiaf 2 aelod o'r tîm nyrsio i gyflawni'r rhan fwyaf o'i weithgareddau bywyd pob dydd. Yn nodweddiadol, byddai hyn yn golygu 2 aelod o staff yn darparu cymorth ffisegol i ymolchi, gwisgo a mynd i'r tŷ bach er mwyn caniatáu i'r claf fodloni ei anghenion • Gall anghenion y claf amrywio sy'n gofyn am adolygiadau nyrsio mwy rheolaidd i reoli'r anghenion • Yn nodwediadol mae ar y claf angen cymorth nyrs i am gyfnodau o ymyrraeth ychwanegol gyda diet a chymryd hylifau
Lefel 2 **Cyffredin**	• Mae ar y claf angen ychydig bach o oruchwyliaeth a chymorth wrth gyflawni gweithgareddau bywyd pob dydd. Yn nodweddiadol byddai hyn yn golygu 1 nyrs yn darparu cyfarwyddyd, arweiniad a/neu anogaeth lafar er mwyn galluogi'r claf i fodloni ei anghenion. • Yn nodweddiadol mae ar y claf angen monitro cyffredin gyda diet a chymryd hylifau
Lefel 1 **Annibynnol**	• Nid oes ar y claf angen unrhyw gymorth nyrsio i fodloni amrywiaeth o anghenion gofal personol (e.e. ymolchi, gwisgo, maeth)

Aliniad y Themâu

Working Document

Mae themâu a defnydd offeryn Lefelau Gofal Cymru ar gyfer wardiau derbyn a thrin mewn gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol yn wahanol i'r Lefelau Gofal Cymru eraill. Mae hyn oherwydd y nifer uwch o adnoddau nyrsio sydd eu hangen i reoli cleifion sydd mewn perygl neu a allai fod yn risg i eraill mewn ffordd ddiogel. O fewn y gwasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol, nid yw'n anghyffredin bod angen i 2 nyrs neu ragor fod o fewn golwg neu hyd braich i'r claf yn barhaus. Oherwydd hyn mae Lefel 5 ar gyfer y Lefelau CLINIGOL a'r thema Rheoli Risg yn adlewyrchu claf sydd angen arsylwi ar raddfa o 2-1 o leiaf. O edrych arnynt yn unigol, gallai'r themâu sy'n weddill (Cymorth Emosiynol, Gwybyddiaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, Iechyd Corfforol a Gofal Personol), alw am gymorth 1-1 ar y mwyaf, ac felly o dan y themâu hyn, mae'r Lefel Glinigol gyffredinol yn alinio â 4.



Ffigur 1 - **A**liniad y thema **hon** â'r Lefelau Clinigol Cyffredinol

Themâu Technegol ac Arbenigol Ychwanegol

Cyd-gynhyrchwyd lefel gofal Cymru i gynorthwyo nyrsys i fesur lefel aciwtedd cleifion mewn wardiau derbyn a thrin ar draws gwasanaethau aciwt ar gyfer cleifion mewnol iechyd meddwl. Nid yw'r fersiwn yma o Lefelau Gofal Cymru'n addas i'w defnyddio yn y meysydd arbenigol canlynol

- Wardiau / unedau adfer i gleifion mewnol
- Wardiau / unedau Cyffuriau ac Alcohol i gleifion mewnol
- Wardiau gofal seiciatrig dwys i gleifion mewnol
- Wardiau / unedau diogel lefel isel, canolig ac uchel

working document